# Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## LGPS(2)-04-07(p.8)

### Dyddiad: Dydd Iau 22 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

#### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cyhoeddiad yr adroddiad Hawliau ar Waith: Gweithredu Hawliau Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru, ar 29 Mawrth 2007 a'r broses o gyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

#### Crynodeb / Argymhellion

2. Cyflwynir y papur hwn ar gais Gwenda Thomas AC, i dynnu sylw Aelodau eraill at:

- Gyhoeddi adroddiad cyntaf Llywodraeth y Cynulliad ar y cynnydd o ran gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar 29 Mawrth; a,
- Cyfraniad yr adroddiad i'r broses gyffredinol o adrodd yn ôl i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ystod 2007.

#### Cefndir

3. Cadarnhawyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ddiwedd 1991 a daeth i rym ym mis Ionawr 1992. Mae'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau (Partïon Gwladwriaethol") gyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

4. Cyflwynodd y DU yr adroddiad diwethaf yn 1999 ychydig ar ôl sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, a chafodd hwn ei ystyried gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2002. Gwnaeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig nifer o Arsylwadau Casgliadol, a oedd wedi eu hanelu at Lywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig a llywodraeth leol. Disgwylir yr adroddiad nesaf gan y DU ym mis Gorffennaf 2007.

5. Ar gyfer y cylch hwn o adroddiadau, penderfynwyd y bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn cyflwyno'u hadroddiadau cynnydd eu hunain, a'r adroddiadau hyn fydd eu cyfraniadau hwy hefyd at adroddiad y DU gyfan sy'n cael ei baratoi gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES).

6. Caiff adroddiad Llywodraeth y Cynulliad, Hawliau ar Waith: gweithredu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru, ei gyhoeddi ar 29 Mawrth 2007.

## Ystyriaeth

7. Ers datganoli, mae'r Confensiwn wedi cael ei ddefnyddio'n rhagweithiol i lunio polisi ac arwain y ffordd y darperir gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae Saith Amcan Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig , ac yn sicrhau eu bod yn sail i'n holl waith gyda phlant a phobl ifanc a'r gwaith a wnawn ar eu rhan, ac yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru, yn genedlaethol a lleol. Mae Aelodau'r Cynulliad wedi pleidleisio dros fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig fel sail yr egwyddor ar gyfer holl waith y Cynulliad Cenedlaethol ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru.

8. Bydd Hawliau ar Waith yn amlinellu'r cyfraniad a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill a gyda'r sector gwirfoddol, i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.

9. Bydd yr adroddiad yn rhoi'r cyfle i dynnu sylw cenedlaethol a rhyngwladol at y strategaeth benodol a ddilynwyd yng Nghymru, i ddathlu llwyddiannau a rhoi ystyriaeth feirniadol i'r cynnydd ar weithredu hawliau plant a phobl ifanc.

10. Mae'r adroddiad yn dechrau gyda'r Arsylwadau Casgliadol a wnaeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2002. Maent yn nodi casgliadau'r Pwyllgor ar gyflwr hawliau plant yn y DU ac argymhellion ar gyfer eu datblygu. Cawsant eu cyflwyno i'r Parti Gwladwriaethol (y DU) cyfan, ac mae rhai nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i Gymru, tra bo eraill yn ymwneud â meysydd nad ydynt wedi'u datganoli i Lywodraeth y Cynulliad.

11. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr argymhellion hynny sy'n berthnasol i'r meysydd datganoledig, er ei fod hefyd yn cwmpasu rhai meysydd, megis tlodi plant, cyfiawnder ieuenctid, a phlant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid, sydd o ddiddordeb i'r Llywodraeth Ganolog ac i Lywodraeth y Cynulliad.

12. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio hybu trafodaeth am hawliau plant a phobl ifanc rhwng y llywodraeth, asiantaethau statudol eraill a'r sector gwirfoddol; ac â phlant a phobl ifanc eu hunain.

13. Yn ei Arsylwadau Casgliadol 2002, galwodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am fwy o dryloywder mewn gwariant ar blant a phobl ifanc ar draws y Parti Gwladwriaethol. Ystyriwyd hyn yn bwysig o ran galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan lawn yn y gwaith o lunio polisi a gwasanaethau.

14. Cynhaliodd Gweinidogion ymarferiad yn ddiweddar i nodi gwariant a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad ar bolisïau a rhaglenni plant, ar draws y portffolios. Cyhoeddir y canlyniadau ddiwedd mis Mawrth, yr un pryd â'r adroddiad Hawliau ar

Waith. Rhoddir ystyriaeth bellach i oblygiadau strategol yr ymarferiad hwn wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni.

15. Trafodaethau sydd wrth wraidd y broses o adrodd yn ôl ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Mae canllawiau adrodd yn ôl Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn nodi'n glir y dylai llywodraethau ar bob lefel, wrth baratoi eu hadroddiadau, gynnwys cyfraniadau gan gyrff anllywodraethol a phlant a phobl ifanc. Yng Nghymru, gwahoddwyd prif gyrff anllywodraethol a llywodraeth leol i gyflwyno sylwadau ar gopi drafft o'n hadroddiad yn ystod hydref 2006, a thrafodwyd y prif faterion gyda grwpiau o blant a phobl ifanc mewn digwyddiad preswyl gyda'r Ddraig Ffynci ym mis Tachwedd.

16. Gwahoddir cyrff anllywodraethol hefyd i gyflwyno "adroddiad amgen" i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Caiff y gwaith o gynhyrchu'r adroddiad amgen o Gymru ei arwain gan Grwp Monitro Cymru Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef cynghrair a gaiff ei harwain gan Gronfa Achub y Plant Cymru, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, academyddion ac asiantaethau eraill megis Y Ddraig Ffynci. Lluniodd y Grwp Monitro adroddiad interim: Cywiro'r Cam: realiti hawliau plant yng Nghymru, ym mis Ionawr 2006, sy'n ddangosydd defnyddiol o ran safbwynt y cyrff anllywodraethol ar gynnydd hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Trafodwyd yr Adroddiad mewn cynhadledd a noddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn Abertawe, lle y siaradodd y Gweinidog dros Blant.

17. Un datblygiad cyffrous a fydd yn rhan o'r cylch adrodd yn ôl hwn fydd adroddiad a gaiff ei lunio gan bobl ifanc yng Nghymru, fel rhan o brosiect mawr a gaiff ei gynnal gan Y Ddraig Ffynci. Bydd yr adroddiad hwn, a elwir yn Ein Hawliau Ni,, Ein Stori Ni yn seiliedig ar farn dros 8,000 o bobl ifanc 11-18 oed a 2,000 o blant 7-10 oed o bob cwr o Gymru, ar eu teimladau o ran mynediad at eu hawliau o dan y Confensiwn. Cyflwynir Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni hefyd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ystod hydref 2007.

18. Bydd y Comisiynwyr Plant o bob cwr o'r DU hefyd yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Dyma'r tro cyntaf hefyd i'r Pwyllgor gael adroddiadau a fydd yn seiliedig ar farn y bobl annibynnol hyn sy'n hyrwyddo achosion plant. Yng Nghymru, bydd y Dirprwy Gomisiynydd a'i staff yn datblygu'r gwaith hwn.

19. Cyflwynir yr adroddiadau amgen i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ystod haf 2007.

## Goblygiadau Ariannol

20. Nid oes goblygiadau ariannol yn deillio o'r papur hwn. Telir costau cynhyrchu a dosbarthu'r Adroddiad o gyllidebau presennol yr Is-adran Strategaeth Plant ym Mhrif Grwp Gwariant Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

## Themâu Trawsbynciol

21. Mae'r adroddiad Hawliau ar Waith yn cwmpasu ystod eang o faterion trawsbynciol, gan ganolbwyntio ar y rhan fwyaf o'n polisïau strategol allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd hefyd yn cwmpasu materion cydraddoldeb, gan gynnwys gwahaniaethu a mesurau diogelwch

arbennig ar gyfer grwpiau megis plant teithwyr, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant; a phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae hefyd yn ymdrin yn gynhwysfawr â chyfranogiad plant a phobl ifanc.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

22. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur.

Jane Hutt AC
Y Trefnydd a'r Gweinidog dros Gydraddoldebau a Phlant

Pwynt Cyswllt: Huw G Jones, Is-adran Strategaeth Plant. Ffôn: 029 2082 3675